# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

## Ysgol Gynradd Rhiwlas
**Rhiwlas**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 4EH**

**Rhif yr Ysgol: 6612097**

**Dyddiad yr Arolygiad: 02/11/09**

**gan**

**Edward Goronwy Morris**
**78283**

**Dyddiad Cyhoeddi: 14/01/10**

**O dan rif contract Estyn: 1100909**

**Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

74. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Yn holl agweddau bywyd yr ysgol, darperir dealltwriaeth gynhwysfawr i ddysgwyr o onestrwydd, tegwch a pharch. Mae cydaddoli yn bodloni'r gofynion statudol ac mae amser i fyfyrio ar y materion perthnasol iawn a godir. Mae datblygiad diwylliannol yn cael ei hybu'n effeithiol mewn sawl maes o'r cwricwlwm, ac mae cysylltiadau cryf gyda gwledydd eraill, megis Siapan. Mae cyfnodau cydaddoli ynghyd a'u hastudiaethau mewn celf ac addysg grefyddol yn gwneud cyfraniad pwysig i ddatblygiad ysbrydol dysgwyr.